

## PDZ3. TYDDEWI I BEN CAER:



## Dinas Fach i Ben Anglas, gan gynnwys Ynys Dewi

### CYNNWYS


	Tudalen
PDZ3. TYDDEWI I BEN CAER:	71
1 Disgrifiad Lleol	73
2 Prosesau'r Arfordir yn yr Ardal Arfordirol Gyffredinol	74
3 Senarios rheoli ar gyfer yr Ardal Arfordirol Gyffredinol	75
4 Senarios rheoli	79
5 Crynodeb Rheoli.	97

*Parth Datblygu Polisi 3*

Isgell Cynllun Rheoli Traethlin 8  
 Map Lleoliad Man Cychwyn  
 Parth Datblygu Polisi 3 - Tyddewi Ben Caer



Atgynrhyngwyd o fapiau'r Ardalgw Ordnans gyda chartrfaed Rheolwr y Llyfrfa. Hwffraint y Goron-twydded neilltuedig AL 100026380



Allwedd:	
	Y Morlin Presennol a'r Pellder Cronnol
	Linell Gilio 100 Mlynedd gyda Dim Ymyriad Gweithredol
	Parth Datblygu Polisi
	Ardal Reoli
	Uned Bolisi
	Ramsar
	ACA
	AGA
	SoDdGA
	GNG
	Henebion Cofrestredig
	Parth Perygl Lilfogydd AA 3



I:\979001\Technical\_Cad\GIS\Project\GISMP\_Report\Figures\Policy\_Development\_Zones

## 1 Disgrifiad Lleol

Clogwyni a phentiroedd craig galed, yn frith o faeau a chilfachau bach, sy'n ffurfio'r Parth i raddau helaeth ac mae'n ymestyn o ystlys ogleddol Porth Sain Ffraid, trwodd i Harbwr Abergwaun ym Mhen Anglas i bob diben. Dim ond ym Mhenmaendewi mae'r Porth Mawr sydd ychydig yn fwy. Tyddewi yw prif anheddiad yr ardal a hefyd ei phrif ganolbwynt twristiaeth. Mae'r briffordd i Dyddewi (fel y trafodwyd yn PDZ2) yn rhedeg ymhell i gefn clogwyni rhan ogleddol Porth Sain Ffraid. Mae'r ffordd hon yn rhedeg trwy bentref isaf Solfach heibio i gilfach Harbwr Solfach.<sup>1</sup> Daw'r briffordd arall i Dyddewi o'r gogledd-orllewin ac Abergwaun, gan redeg rhyw 3km tua'r tir o arfordir y gogledd, i'r Parth hwn.

Mae ffyrdd yn tueddu i reiddio allan o Dyddewi i'r amrywiol gymunedau arfordirol ac nid oes unrhyw ffordd yr arfordir arbennig. Dros ran ogleddol yr ardal, mae ffyrdd i'r amrywiol gymunedau arfordirol yn rhedeg i gyfeiriad yr arfordir o'r briffordd. Eto nid oes unrhyw ffordd yn cysylltu cymunedau ar hyd y morlin.

Yr unig bentref sylweddol ar yr arfordir yw Solfach, ac mae hwn yn sefyll yn ôl ym mhen Harbwr Solfach. Mae'r pentrefi eraill i gyd yn bentrefannau mwy lleol, pob un gyda chymeriad ychydig yn wahanol, ond pob un yn bwysig oherwydd gwerthoedd penodol sydd ganddynt i gyfrannu at y rhanbarth at ei gilydd. Fodd bynnag, maent i gyd wedi'u gwahanu'n gorfforol o'i gilydd sy'n golygu mai ychydig o ryngweithiad sydd rhyngddynt o ran rheoli traethlin.

Dynodwyd llinell glogwyni Porth Sain Ffraid, sy'n ymestyn bron yr holl ffordd i Abereiddi, yn AGA a, thros ardal ychydig yn ehangach, gan gynnwys ochr orllewinol Pen Caer, dynodwyd yn ACA. Mae'r dynodiadau hyn hefyd yn ymestyn i Ynys Dewi sy'n cael ei chynnwys o fewn y Parth Datblygu Polisi hwn. Mae amryw gaerau cyn hanes ar hyd llinell y clogwyni; yn Solfach, Porth-y-rhaw a Chaerfai ar ochr ddeheuol y Parth; ac yng Nghastell Heinif, Penmaendewi, Castell Coch, Caerau, Ynys y Castell, Penmorfa, Dinas Fawr, gyda phentiroedd Pen Caer a Phenmaendewi wedi cael eu dynodi'n ardaloedd tirwedd hanesyddol.

Felly, mae modd gweld y Parth fel dwy wahanol haen i raddau helaeth. Yn gyntaf mae'r rhain yn rhan o'r arfordir naturiol mwy cyffredinol sy'n bwysig dros ben. Mae hyn yn cynnig agwedd naturiol a newidiol ar adnodd hanesyddol o bwys cenedlaethol, sy'n ffurfio rhan o gymeriad sylfaenol Sir Benfro. Yn ail, ar y raddfa leol, mae'r cymunedau bach unigol sydd â phroblemau a gwerthoedd eithaf penodol.

Oherwydd hyn, mae ffurf dogfen y CRhT yn newid ychydig; yn gyntaf yn trafod yr arfordir cyffredinol, cyn closio gyda manylder priodol at bob cylch lleol. Fodd bynnag, caiff yr un fformat ei fabwysiadu at ei gilydd, sy'n cynnwys rhoi disgrifiad o bob cylch lleol, cyn ystyried ac asesu eu senarios man cychwyn, ond yna'n trafod y polisi hefyd. Caiff y casgliadau ar gyfer yr ardal gyfan eu tynnu ynghyd ar ddiwedd y broses hon.

---

<sup>1</sup> Mae'r ffordd hefyd yn rhedeg y tu ôl i'r grib raeanog yn Niwngwl ac ymlaen i Hwlfordd. Yn Niwngwl mae'r ffordd yn debygol o gael ei cholli, efallai yn ystod yr ail Gyfnod.

## 2 Prosesau'r Arfordir yn yr Ardal Arfordirol Gyffredinol

Mae rhan ddeheuol yr arfordir yn agored i'r tonnau cryfaf o'r de-orllewin. Mae hyn yn parhau dros Benmaendewi er bod Ynys Dewi'n rhoi cysgod sylweddol yma. Ar hyd arfordir y gogledd, er bod prif ynni'r tonnau'n cyrraedd o'r de-orllewin, caiff tonnau eu diffreithio fel eu bod yn dynesu at yr arfordir o gyfeiriad mwy gorllewinol. Mae rhan ogleddol hon yr arfordir yn fwy agored i donnau sy'n dod yn uniongyrchol o'r gogledd a'r gogledd-orllewin. Nid oes fawr ddim cydadwaith rhwng gwahanol rannau o'r draethlin, er y gall fod symudiad sylweddol o waddod mewn ymateb i wahanol gyfeiriad tonnau mewn baeau lleol. Yn nodweddiadol, pan fo baeau'n ddigon pell i mewn rhwng eu pentiroedd craig, mae ganddynt draethau graean storm gyda rhywfaint o dywod dros y blaendraeth rhynglanwol.

Y brif broses ar y raddfa gyffredinol yw erydiad araf iawn o'r graig galed, gyda phosibilrwydd erydu cyflymach o waddodion meddalach yn y baeau.

### CYFRADDAU ERYDIAD MAN CYCHWYN POSIBL

Caiff gwahaniaeth ei wneud rhwng erydiad sylfaenol y draethlin a chiliad clogwyni, sy'n effeithio ar gopa clogwyni a llethrau arfordirol. Mae hyn yn cael ei nodi yn y tabl isod ynghyd ag elfennau perthnasol eraill. Wrth asesu erydiad a chiliad yn y dyfodol gwnaed lwfans am gynnydd yn lefel y môr a chaiff hyn ei drafod yn Atodiad C. Caiff hyn ei drafod hefyd yn fyr yn dilyn y tabl.

O fewn baeau lleol, bydd cynnydd yn lefel y môr (SLR) yn ffactor sylweddol yn natblygiad y draethlin yn y dyfodol. Lle bo clogwyni neu draethlinau meddalach yn erydu, mae cyflymder yr erydiad yn debygol o gynyddu gyda chynnydd yn lefel y môr. Gallai hyn fod 1.7 i 2.5 gwaith y cyflymder erydu sylfaenol presennol, dros y 100 mlynedd. Lle bo nodweddion mwy sefydlog, fel traethau storm hollol ddatblygedig, byddai'r traeth yn treiglo'n ôl yn naturiol, efallai oddeutu 10m i 40m, yn dibynnu ar natur y traeth a'r arfordir tu cefn. Wrth i draethau, sydd ar hyn o bryd yn gwarchod llethrau arfordirol cymharol sefydlog, erydu neu dreiglo'n ôl, gallai hyn beri ailysgogi tirlithriadau ac ansadrwydd llethrau.

Lleoliad	Cyfradd Sylfaenol NAI (m / flwyddyn)	Nodiadau	Amrediad Erydu 100 mlynedd (m)
Clogwyni caled yn gyffredinol	0.05	Clogwyni'n erydu gyda darnau'n llithro.	5 - 10
Porth Mawr	0.1	Tuedd i dreiglo'n ôl gyda chynnydd yn lefel y môr	6 - 30
Abereiddi	0.3	Yn dilyn methiant amddiffynfeydd	30 - 50
Abercastell	0.05	Tuedd i dreiglo'n ôl gyda chynnydd yn lefel y môr	10 -30
Aber Mawr	0.1 - 0.2	Clogwyni'n erydu	10 - 50
Lleol i glogwyni	0.2 - 0.3	Linell glogwyni'n erydu	10 - 60

Aseswyd cyfraddau sylfaenol o ddata arolygu a hanesyddol. Caiff amrediad yr erydiad all ddiwydd ei asesu fel amrywiad o'r gyfradd sylfaenol a sensitifedd yn faint all lefel y môr godi. Mae rhagor o fanylion ar gyflymder erydiad ynghyd â mapiau erydiad yn Atodiad C.

### LLIFOGYDD

Mae'r ardal fwyaf sylweddol o berygl llifogydd yn Solfach. Mewn cylchoedd eraill caiff posibilrwydd llifogydd ei drafod yn lleol.

### AMDDIFFYNFYEYDD PRESENNOL

Caiff yr amddiffynfeydd o fewn baeau unigol eu disgrifio yn y tudalennau canlynol. Ni amddiffynnwyd yr arfordir yn gyffredinol.

#### SENARIO DIGYFYNGIAD

Y senario digyfyngiad yw parhad erydu'r morlin cyffredinol. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar gyfer pob cylch lleol.

#### RHYNGWEITHIAD ALLWEDDOL GYDAG AMDDIFFYNFYDD

Caiff hyn ei ystyried o fewn pob cylch lleol.

### 3 Senarios rheoli ar gyfer yr Ardal Arfordirol Gyffredinol

Nid oes unrhyw amddiffynfeydd ar hyd yr arfordir yn gyffredinol ac, fel y cyfryw, mae'r ddau senario man cychwyn yr un fath. Y brif effaith fyddai ar yr amgylchedd hanesyddol. O dderbyn yr erydiad araf yn gyffredinol, y gost sylweddol ac effaith ddifrifol hyn ar naturioldeb pwysig yr arfordir, ni fyddai newid y polisi naill ai'n gyfiawnadwy nac yn dderbyniol. Pan fo lle i reoli'n lleol er mwyn cynnal nodweddion yr amgylchedd hanesyddol, yna caiff hyn ei ystyried. Y polisi trosfwaol ar gyfer y Parth yw Dim Ymyriad Gweithredol dros y tri Chyfnod. Yn y cyd-destun hwn caiff y cylchoedd lleol eu hystyried nawr.

Caiff polisi CRhT1 ei gyflwyno yn y tabl isod ar gyfer yr ardaloedd hynny sy'n cael eu hystyried yn fanwl.

Rhif			Dull Rheoli Dilynol
CRhT1	Uned	Polisi	
Gogledd Sir Benfro. (Sylwch: datblygwyd y polisi ar gyfer y byrdymor a'r hirdymor dros y cyfnod o 50 mlynedd.)			
18SOL/A	Solfach	HLT/HTL	
18PCL/A	Porth Clais	SHTL/SHTL	
19WSB/A	Porth Mawr	SHTL/R	
20AEY/A	Abereiddi	HTL/R	Trafodaeth gyfredol ar allu adlinio
20PGN/A	Porth Gain	HTL/HTL	
20ACS/A	Abercastell	DN/HTL	
20MTY/B	Aber Mawr i Aber Bach	DN/DN	

Yn ogystal, daw'r wybodaeth a'r polisi canlynol o Ddrafft CRhLID Afonydd Sir Benfro a Ceredigion.

<b>Uned Bolisi 4 Afonydd Arfordirol y Gorllewin</b>	Mae Uned Bolisi Afonydd Arfordirol y Gorllewin yn cynnwys llawer o gyrsiau dŵr byr a serth sy'n ymateb yn gyflym i law ac yn draenio arfordir Sir Benfro, o Ddinbych-y-pysgod, tua'r gorllewin i Abergwaun.
<b>Problem / perygl:</b>	<p><b>Problem:</b></p> <p>Prif ffynhonnell y llifogydd yw llifogydd afonol a llifogydd afonol dan ddylanwad y llanw. Bydd sianelau afonydd yn llenwi'n gyflym ac yn llifo allan ar draws y gorlifdir. Mae'n digwydd yn gyflym a'r cyfnod yn debygol o fod yn fyr. Mae llifogydd afonol dan ddylanwad y llanw'n broblem yn nyfroedd isaf yr afonydd yn enwedig pan fydd llanw mawr a gwynt cryf yn cyfuno â llawer o ddŵr yn yr afonydd. Mae llifogydd dŵr arwyneb lleol yn broblem hefyd.</p> <p><b>Perygl Llifogydd Presennol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Mae mwyafrif y bobl fydd yn teimlo effaith llifogydd yn byw yn Abergwaun, Solfach a Dinbych-y-pysgod. Mae cymunedau Solfach a Dinbych-y-pysgod yn agored arbennig i niwed.</li><li>- Mae dyffryn afon cul a cyfyngedig yn peri llifddwr sy'n llifo'n gyflym yn</li></ul>

	<p>Abergwaun a Solfach.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae cyfanswm o 1.2km o amddiffynfeydd dyrchafedig ar hyd yr uned bolisi sy'n amddiffyn tua 60 eiddo rhag digwyddiad AEP 10%, yn bennaf yn Abergwaun a Solfach.</li> </ul> <p><b>Perygl Llifogydd yn y Dyfodol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae modelu bras yn dangos bod newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd o ryw 200 i 310 eiddo; mae hyn yn gynydd o 55% ar nifer presennol yr eiddo sydd mewn perygl o'r digwyddiad llifogydd 1% AEP.</li> <li>- Nid oes disgwyl i newid defnydd tir a threfoli gael effaith sylweddol yn yr uned bolisi hon.</li> <li>- Mae rhyw 1% o gyfanswm poblogaeth yr Uned Bolisi mewn perygl o ddigwyddiad llifogydd 1% AEP. Mae hyn yn gynydd o 42% ar nifer presennol y bobl sydd mewn perygl o ddigwyddiad llifogydd 1% AEP.</li> <li>- Bydd mwy o ddyfnder a chyflymder llifddwr yn cynyddu'r perygl i bobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n dueddol o orlifo.</li> <li>- Mae disgwyl i iawndal llifogydd gynyddu rhyw 83% ar gyfer y digwyddiad llifogydd 1% AEP.</li> <li>- Mae'n debygol y bydd dyfnder llifogydd yn cynyddu yn y dyfodol, gyda dyfnder nodweddiadol llifogydd yn ystod digwyddiad llifogydd 1% AEP yn cynyddu bron 1m o ganlyniad i gynydd yn lefel y môr yn Abergwaun a Dinbych-y-pysgod.</li> <li>- Bydd cyflymder dechreuad llifogydd yn cynyddu ychydig yn nalgylchoedd mwy ucheldirol Afonydd Arfordirol y Gorllewin.</li> </ul>
<p><b>Polisi a ddewiswyd</b></p>	<p>Polisi 4 – Cymryd camau pellach i gynnal y lefel bresennol o berygl llifogydd i'r dyfodol.</p>
<p><b>Cyfiawnhad a pholisïau eraill a ystyriwyd</b></p>	<p>Polisi 4 – Mae nifer o anheddau llai mewn perygl o lifogydd yma ac acw ar hyd a lled yr Uned Bolisi. Gyda'i gilydd, fodd bynnag, mae'r anheddau gwasgaredig hyn yn dod i niferoedd cymharol fawr o eiddo mewn perygl llifogydd. Oherwydd maint y perygl sydd i'w ddisgwyl yn y dyfodol, byddai dewis Polisi 4 yn cyflawni'r amcanion wrth gadw perygl llifogydd presennol yn y dyfodol yn unol â newid yn yr hinsawdd. Dan Bolisi 4, bydd mesurau rhybudd rhag llifogydd a gallu gwrthsefyll llifogydd yn dal i wella heddiw ac yn y dyfodol. Byddai Polisi 4 yn caniatáu i gamau rheoli perygl llifogydd ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf, fel Abergwaun. Byddai cynnal y perygl llifogydd presennol yn y dyfodol dan Bolisi 4 yn peri bod iawndal blynyddol yn aros tua £0.18m ar gyfartaledd.</p> <p>Rydym wedi dewis y polisi hwn ar sail y perygl oddi wrth ffynonellau llifogydd mewndirol a ffynonellau llifogydd llanwol. Pe bai peryglon llifogydd llanwol yn cael eu tynnu o broses werthuso polisïau, mae amcangyfrifon dechreuol yn awgrymu y byddai'r polisi hwn yn newid o Bolisi 4 i Bolisi 3.</p> <p><b>Dewisiadau polisi eraill a ystyriwyd:</b></p> <p>Polisi 3 – Byddai dewis Polisi 3 yn peri cynnydd yn amllder a dyfnder llifogydd yn y dyfodol. Byddai trigolion a busnesau Abergwaun, Solfach a Dinbych-y-pysgod yn cael eu heffeithio trwy gynydd mewn amhariad ar isadeiledd, straen gymdeithasol a cholled economaidd.</p> <p>Polisi 5 – Gweithredwyd mesurau eisoes i leihau perygl llifogydd yn Solfach a chânt eu cynnig ar gyfer Merrion a Stepside. Oherwydd rhesymau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, mae'n annhebygol y byddai modd gweithredu dewisiadau lliniaru llifogydd ychwanegol i leihau perygl llifogydd.</p> <p>Polisi 6 – Eisoes adeiladwyd cynllun lliniaru / dal llifogydd i'r diben ym Mhont y Cerbyd, a adeiladwyd yn benodol i leihau llifogydd yn nhref Solfach. O ran</p>

	<p>y cyrsiau dŵr eraill, oherwydd bychander eu dalgylch a'u byrder, mae cyfyngiad ar yr arwynebedd sydd ar gael i ddal llifogydd.</p>
<p><b>Cyfleoedd a chyfyngiadau ar gyfer y dalgylch i gyd</b></p>	<p><b>Cyfleoedd:</b> Lleihau perygl llifogydd yn Abergwaun a Solfach trwy well rhybudd rhag llifogydd ac ymateb brys. Yn wahanol i amddiffynfeydd dyrchafedig, mae camau rhybuddio rhag llifogydd ac ymateb brys yn caniatáu cadw'r cysylltiad rhwng yr afon a'r gorlifdir.</p> <p><b>Cyfyngiadau:</b> Mae'n anodd rheoli dalgylchoedd arfordirol serth, byr sy'n gallu ymateb yn chwim i lifogydd fel Nyfer, Solfach, Gwaun a Nant y Brandi yn Uned Bolisi Afonydd Arfordirol y Gorllewin. Rhaid derbyn mai ychydig o ddewisiadau sydd ar gael fydd yn newid amlder neu faint llifogydd ac mai ychydig o gyfle sydd i wella rhybudd rhag llifogydd mewn dalgylchoedd arfordirol serth, byr sy'n ymateb yn chwim i law. Rhaid i'n hagwedd at reoli perygl llifogydd ganolbwyntio ar leihau'r effaith.</p> <p>Ychydig o le neu gyfiawnhad dros amddiffynfeydd unigol sydd ar gyfer anheddau gwasgaredig, llai fel Solfach. Gyda'i gilydd, fodd bynnag, mae'r anheddau gwasgaredig hyn yn dod i niferoedd cymharol fawr o eiddo mewn perygl llifogydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd defnyddio camau rheoli perygl llifogydd sy'n effeithiol o ran cost.</p>

### 3.1 Solfach

#### DISGRIFIAD LLEOL

Mae pentref Solfach yn sefyll ym mhen ac, yn bennaf, ar hyd ochr ogleddol mornant ag ochrau serth. Mae nant Solfach yn llifo i lawr trwy bont dan y brif A487 ac mae mewn sianel trwy ran isaf y pentref. Mae'r briffordd yn anelu am Solfach Uchaf ar gopa ochr ogleddol serth y prif dyffryn. Gogwydd y fornant yw gogledd-ddwyrain / de-orllewin ac, yn ei cheg, mae'n troi'n sydyn tua'r de i dorri trwodd i'r arfordir. Ar ochr ogleddol y fornant, lle mae'n newid cyfeiriad, mae cei pwysig a chanolfan hwylio. Yn y pentref isaf, ym mhen y fornant, mae nifer sylweddol o eiddo a busnesau o boptu'r afon. Mae parc cychod, llithrfa a maes parcio hefyd. Ar lan ddeheuol y fornant mae casgliad o Odynnau Calch sy'n adeiladau rhestredig ac wedi'u dynodi'n Henebion Rhestredig. Mae adeiladau rhestredig eraill yn Solfach Isaf ac mae'r bont yn adeiledd rhestredig. Mae'r pentref yn gyrchfan ymwelwyr bwysig.



#### AMDDIFFYNFEYDD PRESENNOL

Sianelwyd yr afon trwy Solfach Isaf. Mae wyneb carreg ar oledf o gwmpas y maes parcio ac mae hwn yn parhau islaw'r rhodfa ar hyd ochr ogleddol y dyffryn trwodd i'r ceiau hwylio. Mae'r ceiau'n ffurfio amddiffynfa i eiddo ac i droed y llethr arfordirol i Solfach Uchaf.

#### SENARIO DIGYFYNGIAD

Yn absenoldeb amddiffynfeydd byddai'r clogwyni'n gyffredinol yn cilio'n araf i ochr ogleddol y dyffryn. Mae'r tir y mae'r pentref isaf yn sefyll arno ar yr un gwastad â sianel yr afon gyda'i hwyneb carreg. Heb y sianelu hwn byddai symudiad cyffredinol o'r cwrs dŵr, gan erydu'r glannau.


#### PROSESAU'R ARFORDIR

Gorchuddiwyd gwely'r harbwr gyda thywod ac mae ponciau tywod bach, sy'n awgrymu y gall y fornant Gronni gwaddod o'r ardal alltraeth. Gwarchodwyd y fornant yn dda gan ogwydd y geg mewn perthynas â'i estyniad tua'r tir. Dim ond tonnau cyfyngedig sy'n gallu cyrraedd yr harbwr ac mae'r rhain gryn dipyn yn llai erbyn iddynt symud tuag at y pentref isaf.



## LLIFOGYDD

Y prif fgythiad i'r pentref isaf yw llifogydd.



Mae'r mapiau uchod yn dangos bod rhai eiddo yn y pentref isaf mewn perygl llifogydd ar hyn o bryd dan ddigwyddiadau mwy eithafol. Yn y dyfodol, naill ai gyda'r Senario cynnydd o 1m yn lefel y môr neu'r Senario cynnydd o 2m yn lefel y môr, mae'r perygl yn cynyddu'n sylweddol.

## SENARIOS RHEOLI

### DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.



Dan y senario hwn byddai'r amddiffynfeydd presennol yn cael methu. O dderbyn amlygrwydd cymharol isel ardal y pentref isaf i donnau, ni fyddai'r amddiffynfeydd hyn ond yn dadfeilio'n raddol. Mae methiant yn fwyaf tebygol o ddeillio o danseilio'r droed. Ynndo'i hun, ni fyddai hyn yn cynyddu perygl llifogydd gan fod lefel y tir ar frig yr amddiffynfeydd. Ar



hyd y draethlin ogleddol mae methiant graddol yr amddiffynfa'n debygol o gynyddu perygl ansadrwydd llethrau a gallai hyn effeithio ar y briffordd. Mae ardal y cei'n cynnwys amddiffynfeydd concrid cymharol drwm; gallai'r tanseilio graddol ac effaith y tonnau beri eu methiant ymhen rhyw 30 mlynedd. Byddai hyn yn effeithio'n ddifrifol ar ddefnyddio'r ardal a gall beri bod mwy o ansadrwydd llethrau'n effeithio ar eiddo yn

Solfach Uchaf. Y prif berygl fyddai o lifogydd mwy oherwydd cynnydd yn lefel y môr, pe na bai amddiffynfeydd yn cael eu gwneud yn uwch o ganlyniad. Dros y 100 mlynedd, byddai hyn yn effeithio ar ran sylweddol o Solfach Isaf ond ni fyddai o angenrheidrwydd yn effeithio ar y ffordd, hyd yn oed dan y Senario cynnydd o 2m yn lefel y môr. Mae'r tabl isod yn dangos y byddai rhyw 11 eiddo mewn cryn dipyn yn fwy o berygl llifogydd. Mae'r Odynnau Calch i'r de o'r fornant eisoes dan ddŵr yn achlysurol. Byddai'r llifogydd hyn yn cynyddu'n sylweddol dan y senario hwn, neu dan y senario WPM sy'n cael ei ddisgrifio isod.

## **GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.**

Y polisi presennol yw Cadw'r Llinell ac mae'r CRhLID yn awgrymu cynnal amddiffynfeydd yn unol â newid yn yr hinsawdd. Ymhellach i fyny'r afon mae'r amddiffynfa'n ceisio lleihau'r llifeiriant yn yr afon. Dan y senario hwn byddai amddiffynfeydd yn y cei'n cael eu cynnal fel y byddai'r rhodfa ar hyd ystlys ogleddol y dyffryn. Byddai hyn yn dal i amddiffyn y llethr arfordirol yn ogystal â chynnal y buddiannau hwylio. Byddai mater i'w ystyried mewn cysylltiad â lefel yr amddiffynfeydd a chynnal mynediad at y dŵr ar gyfer defnyddio cychod. Yn ardal Solfach Isaf yr angen hwn i gynyddu uchder yr amddiffynfeydd ar hyd sianel yr afon i gyd fyddai'n peri problem. Dros yr hanner can mlynedd nesaf byddai angen i amddiffynfeydd fod rhyw 0.5m yn uwch i gynnal yr un faint o amddiffyniad ag ar hyn o bryd. Mewn 100 mlynedd byddai angen codi'r amddiffynfeydd hyn 1m yn nodweddiadol ac, yn dibynnu ar gyflymder cynnydd yn lefel y môr, gallai fod angen eu codi 2m. Byddai hyn yn rhoi eiddo mewn perygl methiant dirybudd a byddai'n cyfyngu'n ddifrifol ar lif yr afon. Mae tuedd o'r fath mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr yn cael ei hystyried yn anghynaliadwy, o ran disgwyliad y dyfodol ac o ran yr effaith ar gymeriad y pentref.

## **TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL**

Y farn yw bod modd cynnal ardal y cei a chyfanrwydd y rhodfa. Fe all cyllid fod yn fater pwysig, fodd bynnag, a byddai angen ceisio cael cyllid cydweithredol i gadw defnydd presennol yr ardal. Cafwyd cydgyllido o'r fath eisoes wrth ddatblygu cynlluniau diweddar.

Tra gall fod yn ymarferol cynyddu uchder amddiffynfeydd Solfach Isaf yn ystod y ddau Gyfnod cyntaf, nid yw parhau'r polisi hwn i'r dyfodol yn cael ei ystyried yn gynaliadwy. O'i hamddiffyn yn sylweddol, byddai culni sianel yr afon yn creu problemau llifogydd trychinebus pe bai'r amddiffynfeydd yn methu. Byddai hefyd yn dinistrio tirwedd bwysig y pentref. Dros y 50 mlynedd nesaf dylid cynllunio i weld bod eiddo'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn well, gyda phosibilrwydd dileu eiddo o'r gorlifdir hyd yn oed. Byddai angen datblygu hyn gyda'r gymuned leol. Y polisi ar gyfer Solfach Isaf fyddai Cadw'r Llinell i ddechrau ond gyda'r bwriad o Adlinio Rheoledig yn y dyfodol.

**CYMHARIAETH AC ASESIAD CRYNO O SENARIOS MAN CYCHWYN**

**Tabl 1. Aseiad Economaidd**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o iawndal erydiad a bennwyd gan ddadansoddiad MDSF CRhT2 ar gyfer y PDZ cyfan. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad H. Pan fo astudiaethau'n darparu gwybodaeth fanylach, mae hyn yn cael ei nodi. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o iawndal all godi dan y ddau senario man cychwyn.

**ASESIAD O IAWNDAL ERYDIAD**

Cyfnod	0 – 20 mlynedd		20 – 50 mlynedd			50 – 100 mlynedd			50 – 100 mlynedd (2m o gynnydd yn lefel y môr)		Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)	
	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo:		Gwerth x £k	Nifer yr eiddo		
	Pres.	Masn.		Pres.	Masn.		Pres.	Masn.		Pres.		Masn.
<b>NAI</b>							1	2	178	1	2	36
<b>WPM</b>							1	1	172	1	1	35

Nodiadau: Pennwyd gwerth presennol iawndal ar gyfer 1m o gynnydd yn lefel y môr mewn 100 mlynedd.  
Gwybodaeth arall:

**ASESIAD O BERYGL LLIFOGYDD**

Lleoliad	Perygl llifogydd llanwol 2010			Perygl llifogydd llanwol 2060			Perygl llifogydd llanwol 2110			Perygl llanwol 2m o gynnydd yn lefel y môr		Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)
	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		AAD x £k	Nifer yr eiddo		
	<1:10	>1:10		<1:10	>1:10		<1:10	>1:10		<1:10	>1:10	
<b>NAI</b>	0	7	3.75	5	3	9.09	10	1	170	14	1	678
<b>WPM</b>	0	7	3.75	0	8	2.93	0	11	32.9	0	15	196

**Tabl 2. Aseiad Cyffredinol o Amcanion**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi aseiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

	NAI			WPM		
Lleihau perygl i fywyd.	Red	Yellow	Green	Red	Yellow	Green
Amddiffyn eiddo rhag colled trwy lifogydd ac erydiad.	Red				Yellow	
Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol.			Green	Red		
Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus.	Red			Red		
Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau.	Red			Red		
Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod a gweithgaredd plymio cysylltiedig.	Red					Green
Cynnal cymeriad a chyfanwydd cymunedau arfordirol.	Red					
Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd.		Yellow			Yellow	
Cynnal tirwedd hanesyddol.	Red				Yellow	
Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd.	Red			Red		
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanwydd y safleoedd rhyngwladol dynodedig (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.			Green		Yellow	
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.			Green		Yellow	
Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella.			Green	Red		
Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau.	Red			Red		

## 3.2 Porth Clais

### DISGRIFIAD

Cilfach yw Porth Clais sy'n wynebu at allan ar linell glogwyni ogleddol Porth Sain Ffraid. Nid yw'r gilfach ond yn 400m o hyd ac oddeutu 50m o led, yn rhedeg bron fel ceunant tua'r tir at y ffordd leol. Mae gan yr ardal gyddestun hanesyddol pwysig fel porthladd diwydiannol bach ac mae amryw Odynnau Calch gyda cheiau o boptu'r brif sianel, ar ei phen uchaf. Yng ngheg y gilfach mae cei bach ac mae hwn yn rhoi amddiffyniad hanfodol i angorfeydd. Mae mynediad i'r gilfach yn cael ei chyfyngu dros y llanw, er bod mynediad ar hyd llwybr yr arfordir a mynedfa breifat o Ben Porth Clais. Dynodwyd y fornant i gyd yn SoDdGA a



rhan allanol y gilfach yn AGA ac ACA.

### SENARIO DIGYFYNGIAD

Yn absenoldeb amddiffynfeydd y prif ganlyniad fyddai amlygu ceg y gilfach ac effaith tonnau sylweddol ymhellach i fyny'r cwm. Mae'n annhebygol y byddai llawer mwy o effaith y tonnau wrth myl y ffordd.

### AMDDIFFYNFYEYDD PRESENNOL

Y brif amddiffynfa yw adeiledd mawr y cei yn y geg. Mae ynni mawr y tonnau'n bwrw yn erbyn yr adeiledd hwn ac ystyrir ei fod mewn cyflwr cymedrol, gyda bywyd gweddilliol o ryw 30 mlynedd. Mae amddiffynfeydd lleol eraill ar hyd ochrau'r gilfach ar ffurf ceiau bach a llithrfeydd.



ardaloedd y geg o laid i amgylchedd ynni uwch gyda dyfodiad mwy o dywod yn ôl pob tebyg.

Mae'r prif amddiffynfeydd wrth y ffordd ac o boptu'r gilfach o flaen yr Odynnau Calch.

### PROESAU'R ARFORDIR

Llaid a thywod sy'n ffurfio gwely'r gilfach, ond ychydig symudiad deunydd sydd. Byddai hinsawdd o donnau mwy yn newid

Mae'r ffordd mewn perygl llifogydd gyda chynnydd yn lefel y môr er ei bod tua 6m uwchlaw datwm ordnans.

### SENARIOS RHEOLI

#### DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.

Dan y senario hwn byddai'r cei allanol yn methu a byddai llawer mwy o ynni tonnau'n treiddio i'r gilfach. Mae hyn yn debygol o arwain at roi'r gorau i'r angorfeydd presennol. Ym mhen y gilfach, byddai'r ceiau'n dadfeilio a'r Odynnau Calch a chymeriad hanesyddol yr hen harbwr yn cael eu colli. Byddai angen cofnodi mwy o'r amgylchedd hanesyddol. Byddai'r ffordd yn cael ei gorlifo'n amlach a, gyda Senario cynnydd o 1m yn lefel y môr, byddai llifogydd yn digwydd yn rheolaidd. Gyda Senario cynnydd o 2m yn lefel y môr gallai'r ffordd orlifo'n lleol

bob llanw mawr. Ni fyddai unrhyw eiddo preswyl yn cael ei golli oherwydd erydiad neu lifogydd.

#### GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.

Y polisi presennol yw cadw'r llinell yn ddetholus ac mae hyn yn ymwneud yn benodol â rhannau uchaf y gilfach. Byddai'r agwedd hon yn ymarferol, hyd yn oed pe collwyd y cei allanol.

#### TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL

Mae'r polisi presennol yn ymddangos yn gynaliadwy ac yn unol â'r bwriad i gynnal yr agweddau hanesyddol pwysig ar y lleoliad. Yn hytrach na pholisi o gadw'r llinell yn ddetholus, mae CRhT2 yn pennu bwriad mwy penodol. Y nod fyddai cefnogi ymdrechion y dyfodol i gynnal y cei allanol a defnyddio'r gilfach ar gyfer hwylio. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai hyn yn cael ei gyllido trwy warchod yr arfordir a byddai angen ei gyllido'n breifat. Fel y cyfryw, y polisi fyddai Dim Ymyriad Gweithredol yn y gilfach allanol. Yn benodol ni fyddai hyn gwrthod gwaith ar gynnal y cei er yr ystyrir y byddai hyn yn dod yn fwyfwy anodd gyda chynnydd yn lefel y môr. Byddai angen asesu unrhyw waith dan weithdrefnau arferol, gan ystyried yr effaith debygol ar ddynodiadau gwarchod natur.

Wrth ymyl y ffordd, ac yn cynnwys y ceiau, y polisi a'r bwriad fyddai cynnal yr amddiffynfeydd presennol, yn bennaf i gadw'r amgylchedd hanesyddol. Byddai cyllid cydweithredol yn gorfod cael ei ystyried a gallai ddod yn rhannol o'r Awdurdod Priffridd.

Wrth i lefel y môr gynyddu felly hefyd fyddai llywio i ran uchaf y gilfach. Gall hyn roi cyfle i adleoli'r angorfeydd presennol a mwy o gyfleoedd cyllid.

#### CYMHARIAETH AC ASESIAID CRYNO O SENARIOS MAN CYCHWYN.

Nid oes unrhyw eiddo'n cael ei golli naill ai oherwydd llifogydd nac erydiad yn yr ardal hon. Byddai'r Odynnau Calch yn cael eu colli oherwydd erydiad.

#### Tabl 2. Aseiad Cyffredinol o Amcanion

Mae'r tabl canlynol yn rhoi aseiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

	NAI			WPM		
	Red	Yellow	Green	Red	Yellow	Green
Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol.			Green	Red		
Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus.		Yellow			Yellow	
Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau.	Red					Green
Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod a gweithgaredd plymio cysylltiedig.	Red			Red		
Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd.						Green
Cynnal tirwedd hanesyddol.	Red					Green
Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd.	Red					Green
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanwydd y safleoedd rhyngwladol dynodedig (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.		Yellow			Yellow	
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.		Yellow			Yellow	
Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella.			Green			Green
Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau.		Yellow			Yellow	

### 3.3 Porth Stinian ac Ynys Dewi

#### DISGRIFIAD

Mae Ynys Dewi'n ddaearegol ac yn fiolegol bwysig ac wedi'i dynodi o fewn yr AGA ac ACA. Daw ei harwyddocâd daearegol o'r dinoethiadau folcanig mawr o anghydfurfedd Arenig gwaelodol. Yn ogystal â'i hadar a bywyd gwylt pwysig yn rhyngwladol, mae gan yr ynys lystyfiant clogwyni môr pwysig hefyd ac amrywiaeth niferus o blanhigion prin. Ar y draethlin mae cymunedau planhigion dyfrol prin yn ogystal. Mae rhai adeiladau ar yr ynys ond nid yw'r rhain yn cael eu hystyried mewn perygl o erydiad. Clogwyn craig yw llawer o'r ynys gyda bae tywodlyd bach ar yr ochr orllewinol. Fferi sy'n rhoi mynediad i'r ynys, o Borth Stinian ar y tir mawr. Mae glanfa fach ar yr ynys gyferbyn ac mae'r lanfa ym Mhorth Stinian mewn bae bach gyda chlogwyni uchel y tu cefn iddo.

Mae glanfa'r fferi'n cael ei rhannu gyda gorsaf bad achub RNLI ac mae adeilad bach yn ôl wrth droed y clogwyn. Mae mynediad at orsaf y bad achub a'r lanfa i lawr wyneb y clogwyn. Mae yna gynigion ar gyfer Gorsaf RNLI newydd i'r de o'r adeilad presennol.



#### AMDDIFFYNFEYDD PRESENNOL

Yr unig amddiffynfeydd yw'r rhai cysylltiedig â'r orsaf RNLI a'r lanfa sef mur cefn carreg. Ar yr ynys mae glanfa fach a llithrfa.

#### SENARIO DIGYFYNGIAD

Ychydig o erydu ar y clogwyni sydd yn y ddwy ardal ac, i bob diben, nid yw'r amddiffynfeydd lleol yn effeithio ar hynny.

#### PROSESAU'R ARFORDIR

Yr unig brosesau arwyddocaol yw erydu'r clogwyni a thraeth yr ynys yn araf.

#### SENARIOS RHEOLI

##### **DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.**

Pe na bai unrhyw gamau'n cael eu cymryd i gynnal y glanfeydd a'r orsaf RNLI byddai mynediad i'r ynys yn cael ei gollu a pherygl i fywyd, gydag anfantais i ddefnyddiau dŵr yr ardal yn gyffredinol.

##### **GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.**

Mae rheoli presennol yn ceisio cynnal y glanfeydd a'r orsaf RNLI. Prif effaith cynnydd yn lefel y môr fyddai mwy o erwinder ac anhawster cynnal y gwasanaethau.

##### **TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL**

Y bwriad rhesymegol yw cynnal y lanfa bwysig a dal i gefnogi defnyddio'r orsaf RNLI. Ni ragwelir y byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar yr arfordir naturiol. Bydd problemau'n codi o ran ei defnyddio gyda chynnydd yn lefel y môr a bydd angen rhoi sylw i hyn. Y polisi ar gyfer Porth Stinian a'r ynys yw Dim Ymyriad Gweithredol ond yn benodol ni fyddai hyn yn cau allan gwaith ar gynnal y gwasanaeth fferi a'r orsaf RNLI.

##### **CYMHARIAETH AC ASESAD CRYNO O SENARIOS MAN CYCHWYN.**

Ar wahân i gollu gwasanaeth nid oes unrhyw eiddo'n cael ei gollu na pherygl llifogydd.

**DISGRIFIAD**

Mae Porth Mawr ar ben gorllewinol Penmaen Dewi, yn union i'r de o Benmaendewi. Lled y bae yw oddeutu 1.5km at ei gilydd, gyda thraeth tywod cul a chlogwyn craig galed y tu ôl i ddwy ran o dair ohono. Mae tua 500m yn gleiau meddalach a ffurfiwyd yn nyffryn nant fechan dros ran ogleddol y bae. Dros yr adran hon mae'r arfordir ychydig yn ôl, sy'n caniatáu datblygu darn lletach ac uwch o draeth tywod gyda graean y tu ôl iddo. Mae'r bae'n ardal adloniadol bwysig gyda chwaraeon dŵr lleol, canolfan achub, a maes parcio. Mae'r maes parcio'n fawr ac yn gallu dal bysiau, sy'n adlewyrchu arwyddocâd y



safle i dwristiaeth. I'r gogledd o'r maes parcio mae gweddillion Capel Padrig Sant sy'n Heneb Restredig. I'r de o'r brif ardal adloniadol mae ychydig o eiddo ar wahân yn ôl ar gopa'r clogwyn. Dynodwyd y bae yn SoDdGA a rhan o'r AGA ac ACA. Mae'r bae'n un o nodweddion pwysig llwybr yr arfordir.

**SENARIO DIGYFYNGIAD**

Yn absenoldeb amddiffynfeydd byddai'r draethlin dros arwynebedd y dyffryn wedi erydu'n ôl ynghyd â'r clogwyn clai ymhellach i'r gogledd.

**AMDDIFFYNFYEYDD PRESENNOL**

Mae mur carreg isel tu cefn i draethell fechan ac wyneb yn amddiffyn y maes parcio. O flaen y ganolfan achub mae wyneb craig fwy sylweddol ar oleddf. Er nad yw'r ddau brif ddarn o amddiffynfa ond mewn cyflwr cymedrol nid ydynt yn edrych dan bwysau sylweddol ar hyn o bryd. Mae'r traeth o flaen yr amddiffynfeydd yn gymharol uchel.

**PROSESAU'R ARFORDIR**

Mae pentiroedd craig galed Penmaen Sant Ioan a Phenmaendewi yn gweithredu i gynnwys y bae, a rhoi cryn gysgod i'r ardal. Cyfyngwyd yr hinsawdd donnou o ran cyfeiriad a'r brif broses yw un o'r draethlin ganol isaf yn treiglo'n ôl ac erydiad mwy ymosodol o'r clogwyni clai. Yr awgrym yw y bu erydiad o'r marciau MHW a MLW o ryw 1m y flwyddyn a 3.7m y flwyddyn ar sail mapiau hanesyddol. Mae hyn yn ymddangos yn uchel mewn perthynas â'r diffyg pwysau a welwyd ar yr amddiffynfeydd. Fodd bynnag, bydd erydiad yn cynyddu gyda chynnydd yn lefel y môr wrth i broffil cyfan y bae geisio treiglo'n ôl. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw arolygu o'r glannau ond y dyb fyddai fod patrwm cyffredinol o symudiad y tywod yn y bae tua'r tir ac yn ôl. Nid oes unrhyw gofnod o ddrifft sylweddol ar hyd y glannau. Fodd bynnag, mae amddiffynfa'r maes parcio'n gweithredu i gynnal traeth ychydig yn uwch i'r gogledd o flaen safle Capel Padrig Sant.



Tra bo'r maes parcio mewn perygl llifogydd, nid oes unrhyw eiddo mewn perygl.

## **SENARIOS RHEOLI**

### **DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.**

Dan y senario hwn byddai'r amddiffynfeydd yn cael methu, a byddent yn gwneud hynny i raddau helaeth fel ymateb i gynnydd yn lefel y môr ac ymgais proffil y draethlin gyfan i symud tua'r tir. Byddai'r ganolfan achub a rhannau o'r maes parcio'n cael eu colli. Byddai rhagor o erydiad o'r clogwyni clai hefyd a cholli mwy o ardal Capel Padrig Sant. Nid oes unrhyw awgrym y byddai eiddo ar hyd copa'r clogwyn yn cael eu colli oherwydd natur galed troed y llethr arfordirol. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn archwiliad lleol o ran ansadwydd llethrau lleol.

### **GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.**

Y polisi presennol yw cadw'r llinell yn ddetholus o flaen y maes parcio a'r ganolfan achub. Nodwyd y gallai fod angen cilio dros y tymor hwy yn CRhT1. Byddai cadw'r llinell yn dod gryn dipyn yn anoddach gyda chynnydd yn lefel y môr. Byddai Llanwau Gwanwyn arferol yn cyrraedd lefel y maes parcio dan Senario cynnydd o 2m yn lefel y môr.

### **TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bwysau sylweddol i newid a byddai cadw'r amddiffynfeydd yn cynnal defnydd pwysig yr adran. Yn y dyfodol gyda chysylltiad agos â phwysau cynnydd yn lefel y môr, byddai'n anodd cynnal yr amddiffynfeydd ar eu ffurf ac yn eu sefyllfa bresennol a byddai'n dechrau cael effaith ddifrifol ar atyniad naturiol yr ardal sydd mor bwysig i'w defnydd.

Y bwriad i'r cylch yw cael gwell cydbwysedd fyddai'n cynnig ei hun i ganiatáu a rheoli cilio'r draethlin. Ni fyddai unrhyw linell benodol yn cael ei diffinio ar gyfer amddiffyn yn y dyfodol ac, fel y cyfryw, er mai bwriad y polisi fyddai Adlinio Rheoledig, y nod fyddai un o gilio cynyddol ac addasu defnydd yr ardal. Yn nodweddiadol gallai hyn gynnwys aildefnyddio'r graig bresennol ar ffurf grwynau neu adeileddau isel cefndraeth / croes i'r lan, gan gynorthwyo cadw traeth naturiol a graean. Byddai angen ystyried hyn ar y cyd â chilio graddol ardal y maes parcio, gan ddefnyddio deunydd yr amddiffynfa bresennol i gynnal mynedfeydd a chyfrannu at swyddogaeth naturiol y draethlin. Fel hyn efallai y bydd modd hybu twf twyni wrth i'r draethlin gilio, yn ogystal â chynnal swyddogaeth adloniadol a thwristiaeth bwysig yr ardal. Y cyfle dan y cynllun hwn hefyd fyddai dal i amddiffyn rhywfaint ar yr Heneb Restredig ar ben gogleddol y traeth. Gallai hyn ganiatáu amser ychwanegol i gofnodi mwy ar y nodwedd hanesyddol.



**CYMHARIAETH AC ASESIAID CRYNO O SENARIOS MAN CYCHWYN.**

Nid oes unrhyw eiddo'n cael ei golli oherwydd llifogydd nac erydiad yn yr ardal hon. Byddai Capel Padrig Sant yn cael ei golli dan y naill senario neu'r llall.

**Tabl 2. Aseiad Cyffredinol o Amcanion**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi aseiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

	NAI			WPM		
	Red	Yellow	Green	Red	Yellow	Green
Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol.			Green	Red		
Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus.			Green	Red		
Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau.	Red					Green
Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod a gweithgaredd plymio cysylltiedig.	Red				Yellow	
Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd.	Red				Yellow	
Cynnal tirwedd hanesyddol.		Yellow			Yellow	
Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd.	Red			Red		
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd rhyngwladol dynodedig (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.			Green		Yellow	
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.			Green		Yellow	
Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella.			Green	Red		
Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau.		Yellow		Red		

### 3.5 Abereiddi

#### DISGRIFIAD

Abereiddi



Bae bach i'r gogledd o Benmaendewi ac yn wynebu'r gorllewin yw Abereiddi. Mae'r traeth yn gorwedd mewn cwm allolchiad rhewlifol ag ochrau serth a fewnlenwyd. Ffurfiwyd y traeth o raean igneaidd caled ac mae'n gorwedd ar draeth isaf o ddeunydd mân ar rediad graddol. Mae amryw fythynnod yn sefyll tu ôl i ran ddeheuol y maes parcio, ar dir ychydig yn uwch. Rhestrwyd amryw o'r adeiladau. Ffurfiwyd y bae trwy erydiad craig feddalach yn ei ran ganol, gyda chreigiau igneaidd caletach yn ffurfio'r pentiroedd i'r

gogledd ac i'r de. Mae'r pentir gogleddol yn safle chwarel lechi. Roedd llawer o'r gweithgaredd blaenorol yn y bae yn gysylltiedig â'r diwydiant hwn. Caewyd y chwarel yn 1904 ac yna'i gorlifo, gan ffurfio'r Lagŵn Glas. Mae ardal y maes parcio a'r traeth yn nodwedd bwysig i adloniant a thwristiaeth ac mae cyd-destun hanesyddol defnydd diwydiannol cynharach yr un mor bwysig. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw perchennog yr ardal. Yr unig fynediad at y bae yw ar hyd y ffordd ar gopa'r clogwyni tua'r de.

#### AMDDIFFYNFEYDD PRESENNOL

Mae mur o hen drawstiau pren yn amddiffyn glan y môr ac yn cynnal ardal y maes parcio. Mae llawer o'r mur hwn, a godwyd yn y 1970au, mewn cyflwr gwael a defnyddiwyd creigiau mwy y tu ôl iddo i'w atgyfnerthu, i atal allolchi deunydd. Mae

Abereiddi



canfyddiadau astudiaeth ddiweddar yn awgrymu nad yw ardal y traeth, ac yn bendant y maes parcio, yn naturiol ac y defnyddiwyd gwastraff chwarel yn ôl pob tebyg i ychwanegu at y traeth graean naturiol, hyd yn oed cyn adeiladu'r mur. Erbyn hyn mae'r mur yn rhyngweithio'n fawr iawn gyda phrosesau naturiol y traeth a chanlyniad hyn fu erydiad eithaf difrifol, yn enwedig ar y pen gogleddol.

#### SENARIO DIGIFYNGIAD

Yn niffyg amddiffynfeydd byddai erydiad chwim ac ailaddasiad o ffurf y traeth, gan ailsefydlu traeth storm graean ar dro mwy naturiol rhyw 20m yn ôl o'i sefyllfa bresennol. Yna byddai'r traeth yn dal i dreiglo'n ôl yn unol â chynnydd yn lefel y môr.

#### PROSESAU'R ARFORDIR

Er bod y tonnau alltraeth o'r de-orllewin yn dal i ddylanwadu ar hinsawdd y tonnau, mae'r rhain yn diffreithio i ddynesu o gyfeiriad mwy gorllewinol. Hefyd mae tonnau sylweddol o'r gogledd-orllewin, sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol. Felly, mae'r traeth yn tueddu i ailaddasu gan ddiybennu ar gyfeiriad y tonnau. Mae'r traeth yn cael ei dynnu i lawr hefyd, yn enwedig ar y pen gogleddol, oherwydd y rhyngweithiad gyda'r mur.

Mae tonnau'n torri drosodd yn fater o bwys er na fyddai'n cael ei ragweld y byddai'r eiddo tu ôl yn dioddef unrhyw orlifo rheolaidd hyd yn oed dan Senario cynnydd o 2m yn lefel y môr.

## SENARIOS RHEOLI

### DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.

Dan y senario hwn byddai'r amddiffynfeydd presennol yn cael methu fel y maent ar hyn o bryd. Yn ystod yr astudiaeth ddiweddar amcangyfrifwyd faint allai crib y traeth gilio wedyn ac mae'n cael ei ddangos yn y ffigur yn y testun hwn. Mae hyn yn dangos sefyllfa ddisgwyliedig y draethlin dan wahanol senarios lefel y dŵr.



Dan y senario hwn gallai adfeilion yr hen fythynnod i'r gogledd gael eu colli yn y dyfodol, ond ni fyddai effaith ar y ffordd fynediad na'r eiddo presennol. Byddai colled sylweddol o ardal y maes parcio gydag effaith ar dwristiaeth ac adloniant.

### GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.

Y polisi presennol yw Cadw'r Llinell, gyda lle i gilio yn y dyfodol. Er iddi gael ei gwneud i ysbrydoli penderfyniadau lleol, fe nododd yr astudiaeth ddiweddar y byddai dal i amddiffyn y llinell bresennol yn dod yn fwyfwy anodd ac yn peri colli llawer mwy o'r traeth cyn bo hir. Fe nododd yr astudiaeth bod cyfle i aildefnyddio'r graig tu ôl i'r mur fel dull o reoli cilio'r draethlin, gan ddiogelu mwy ar y fynedfa a'r ardaloedd parcio.

### TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL

Yn ystod yr astudiaeth ddiweddar, nodwyd na fyddai digon o gyfiawnhad economaidd dros gynnal yr amddiffynfeydd presennol. Ar ben hynny, byddai cadw'r amddiffynfeydd yn peri dirywiad y traeth a pherygl difrodi defnydd yr ardal a'r amgylchedd naturiol. Mae aildefnyddio'r maen arfogi presennol yn rhoi cyfle da i ganiatáu Adlinio Rheoledig o'r ardal, a chael cydbwysedd rhwng y ddwy agwedd bwysig hyn ar y bae.

Felly, y polisi ar gyfer yr ardal yw Adlinio Rheoledig gyda'r bwriad o adfer swyddogaeth naturiol y draethlin, ar yr un pryd â chynnal defnydd yr ardal.

**CYMHARIAETH AC ASESIAID CRYNO O SENARIOS MAN CYCHWYN.**

Ni fyddai unrhyw eiddo presennol yn cael ei golli oherwydd erydiad neu lifogydd. Fodd bynnag, byddai ardal y maes parcio'n cael ei golli dan y senario NAI.

**Tabl 2. Aseiad Cyffredinol o Amcanion**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi aseiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

	NAI			WPM		
	Red	Yellow	Green	Red	Yellow	Green
Lleihau perygl i fywyd.		Yellow		Red		
Amddiffyn eiddo rhag colledion i lifogydd ac erydiad.		Yellow			Green	
Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol.			Green	Red		
Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus.			Green	Red		
Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau.	Red					Green
Cynnal cymeriad a chyfanrwydd cymunedau arfordirol.			Green		Yellow	
Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd.			Green			Green
Cynnal tirwedd hanesyddol.			Green			Green
Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd.		Yellow				Green
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd rhyngwladol dynodedig (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.			Green	Red		
Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig.			Green	Red		
Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella.			Green	Red		
Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau.		Yellow		Red		

**DISGRIFIAD**

Mae pentref Porth Gain ymhell yn ôl yn y cwm. Y rhyngweithiad â'r arfordir yw'r hen borthladd diwydiannol hanesyddol arwyddocaol, cysylltiedig â'r diwydiant chwarela. Dau



Porth Gain

forglawdd sylweddol sy'n creu'r porthladd trwy gau am ardal harbwr sychu mawr. Mae mynedfa'r porthladd yn wynebu allan i'r gogledd-orllewin ac mae'n agored i lawer o effaith y tonnau trwy'r fynedfa gymharol lydan rhwng y pentiroedd naturiol. Dynodwyd yr harbwr a'r adeiladau cysylltiedig ar ei ochr orllewinol yn Heneb Restredig. Mae prif adeilad yr harbwr yn adeiledd rhestredig. Nid yw'r ardal yn rhan o ddynddiad gwarchod natur ond mae'n rhan o'r Arfordir Treftadaeth.

**SENARIO DIGYFYNGIAD**

Yn absenoldeb yr harbwr byddai'r bae wedi bod yn ddyfnach a byddai traeth bach wedi ffurfio ar flaen cwm naturiol.

**AMDDIFFYNFYDD PRESENNOL**

Y brif amddiffynfa yw holl adeileddau'r harbwr ar hyd ochr orllewinol y bae ac yng nghefn y bae, gan gynnwys y morgloddiau o boptu'r fynedfa. Mae'r adeileddau hyn yn creu darn o draethlin hollol artiffisial.

**PROSESAU'R ARFORDIR**

Mae mynedfa'r harbwr yn agored i weithgaredd tonnau sylweddol. Caiff y bae ei reoli'n artiffisial. Mae perygl llifogydd llawer iawn mwy yn ardal yr harbwr ond ni fyddai hyn yn ymestyn i eiddo'r prif bentref.

**SENARIOS RHEOLI****DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.**

Dan y senario hwn byddai adeileddau'r harbwr yn cael methu. Byddai agwedd hanesyddol bwysig yr ardal yn cael ei cholli.

**GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.**

Y polisi presennol yw cadw'r llinell. Bydd hyn yn gofyn buddsoddiad sylweddol mewn cynnal adeileddau ond byddai'n sylfaenol o ran cadw'r cofnod hanesyddol pwysig. Bydd y pwysau ar amddiffynfydd yn cynyddu gyda chynnydd yn lefel y môr, yn fwyaf arbennig mewn cysylltiad ag adeileddau'r fynedfa. Mae lefelau'r cei uwchlaw lefel llanwau arferol hyd yn oed dan Senario cynnydd o 2m yn lefel y môr. Fodd bynnag, gallai fod mwy o berygl llifogydd i adeilad yr Harbwr yn y cefn, oherwydd tonnau'n torri drosodd. Mae'r adeileddau'n cael eu hystyried yn gynaliadwy ond yn gysylltiedig â chost arwyddocaol yn y dyfodol

**TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL**

Y prif reswm dros ddal i amddiffyn yr harbwr yw ei werth hanesyddol ac i dwristiaeth y cylch. Fel y cyfryw, mae gwaith ar gynnal yr harbwr yn annhebygol o fod ar gael yn unig drwy gyllid arferol gwarchod yr arfordir. Fodd bynnag, gyda'r cafeat hwn, ac o dderbyn arwyddocâd yr harbwr, y polisi ar gyfer yr ardal fyddai Cadw'r Llinell.

**CYMHARIAETH AC ASESIAID CRYNO O SENARIOS MAN CYCHWYN.**

Nid oes unrhyw eiddo'n cael ei golli naill ai i lifogydd nac erydiad yn yr ardal hon. Byddai colled sylweddol i werth hanesyddol a threftadaeth yr ardal dan senario NAI.

**Tabl 2. Aseiad Cyffredinol o Amcanion**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi aseiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

	NAI			WPM		
	Red	Yellow	Green	Red	Yellow	Green
Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol.	White	White	Green	Red	White	White
Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus.	Red	White	White	White	Yellow	White
Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau.	Red	White	White	White	White	Green
Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod.	Red	White	White	White	White	Green
Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd.	Red	White	White	White	White	Green
Cynnal tirwedd hanesyddol.	Red	White	White	White	White	Green
Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd.	Red	White	White	White	White	Green
Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella.	White	Yellow	White	White	Yellow	White
Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau.	Red	White	White	White	White	Green

**DISGRIFIAD**

Mae pentref Abercastell mewn cwm ag ochrau serth yng nghefn bae tywodlyd cul, yn agor i'r gogledd-orllewin. Mae'r prif eiddo sy'n ffurfio'r pentref yn sefyll ychydig yn ôl o ardal y traeth a dim ond un eiddo sy'n agos at y draethlin. Mae'r traeth yn nodedig trwy fod o dywod yn bennaf heb grib raeanog amlwg. Mae llain gychod fach yng nghefn y traeth a nant fechan yn llifo i lawr y cwm cyn cael ei gwyrto tu cefn i'r ffordd a thrwodd i'r traeth.

**AMDDIFFYNFYDD PRESENNOL**

Yr unig amddiffynfeydd yw mur isel sy'n cynnal y llain gychod. Mae hwn ar grib y traeth naturiol. Nid yw'n ymddangos bod llawer o gydadwaith rhwng yr amddiffynfa a'r traeth. Mae mân furiau'n amddiffyn glannau'r nant.

**SENARIO DIGYFYNGIAD**

Yn absenoldeb amddiffynfeydd, byddai crib y traeth ychydig ymhellach yn ôl a byddai sefyllfa'r nant yn tueddu i symud o fewn y cwm.

**PROSEAU'R ARFORDIR**

Y disgwyl yw y byddai pen y bae'n cael ei amlygu i effaith y tonnau o ddim ond cyfeiriad cyfyngedig iawn, trwy gael cysgod sylweddol rhag cyfeiriad cryfaf y tonnau.

Mae'n ymddangos yn debygol hefyd yr adeiladwyd y llain gychod dros ysgafell naturiol o'r cefndraeth ac yr adeiladwyd y mur i ffurfioli hyn fel man gweithio.

Mae rhywfaint o berygl erydiad i'r cefndraeth ac efallai i'r llethr arfordirol lle mae peth o eiddo'r pentref. Gyda chynnydd yn lefel y môr byddai hen ysgafell y cefndraeth eisiau cilio ymhellach i fyny'r cwm.

**SENARIOS RHEOLI****DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.**

Dan y senario hwn byddai'r amddiffynfeydd presennol yn cael methu. Byddai cynnydd yn lefel y môr yn unig yn ddigon bron i wneud hyn ynghyd ag ymgais ysgafell y cefndraeth i gilio. Gallai fod erydiad, gan achosi rhywfaint mwy o ansadwydd llethrau a gall hyn effeithio ar eiddo. Byddai cilio ysgafell y cefndraeth yn effeithio ar ddefnydd yr ardal a'r llithra bresennol.

**GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.**

Y polisi presennol yw Dim Ymyriad Gweithredol ond gyda'r posibilrwydd y bydd angen Cadw'r Llinell yn y dyfodol. Mewn gwirionedd mae'r polisi hwn yn edrych fel petai'n adlewyrchu'r diffyg pwysau o erydiad ar hyn o bryd ac yn cyfeirio, felly, at y camau angenrheidiol yn hytrach na pholisi'n gyrru'r camau hynny. Caiff y bwriad ei ddehongli, felly, fel un o gadw'r llinell bresennol. Byddai hyn yn dod yn fwyfwy anodd gyda chynnydd yn lefel y môr ac ychydig o gyfiawnhad economaidd fyddai tu hwnt i ddiogelu eiddo ar y llechwedd. Gyda chynnydd o 2m yn lefel y môr byddai'r llain gychod yn rheolaidd dan ddŵr ar Lanwau Gwanwyn a hyd yn oed gyda chynnydd o 1m yn lefel y môr byddai'r mur isel yn dechrau

rhyngweithio llawer mwy gyda'r traeth naturiol. Gallai hyn ei gwneud yn anodd dal i ddefnyddio'r ardal a chael mynediad at y draethlin.

#### TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL

Mae'r bae'n creu amgylchedd ynni eithaf isel heb fawr ddim pwysau ymadawol ar yr amddiffynfeydd. Am y tro, tra na fyddai llawer o angen gweithredu, y polisi fyddai cefnogi dal i gynnal a chadw a pharhau defnydd presennol yr ardal felly.

Gyda chynnydd yn lefel y môr, efallai dros y trydydd Cyfnod, byddai pwysau ar yr amddiffynfeydd yn cynyddu a byddai'n anodd cyfiawnhau eu cynnal a gallai hynny achosi difrod i ddefnydd y bae. Felly, byddai'r polisi'n newid i un o symud yr amddiffynfa'n ôl dan reolaeth, gan ganiatáu i'r traeth dreiglo'n ôl yn naturiol. Yn gysylltiedig â hyn gallai fod angen rhoi rhywfaint o gymorth ychwanegol i'r llethr arfordirol, er mwyn diogelu eiddo. Wrth symud y draethlin yn ôl nod y rheoli fyddai ystyried sut ellid cynnal defnydd yr ardal a mynediad at y blaendraeth a'r môr. Byddai angen gwneud hyn ar y cyd â'r gymuned leol.

#### CYMHARIAETH AC ASESIAID CRYNO O SENARIOS MAN CYCHWYN

##### Tabl 1. Aseiad Economaidd

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o iawndal erydiad a bennwyd gan ddadansoddiad MDSF CRhT2 ar gyfer y PDZ cyfan. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad H. Pan fo astudiaethau'n darparu gwybodaeth fanylach, mae hyn yn cael ei nodi. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o iawndal all godi dan y ddau senario man cychwyn.

##### ASESIAD O IAWNDAL ERYDIAD

Cyfnod	0 – 20 mlynedd		20 – 50 mlynedd		50 – 100 mlynedd		50 – 100 mlynedd (2m o gynnydd yn lefel y môr)		Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)
	Nifer yr eiddo:		Nifer yr eiddo:		Nifer yr eiddo:		Nifer yr eiddo:		
	Pres.	Masn.	Pres.	Masn.	Pres.	Masn.	Pres.	Masn.	
<i>Leoliad</i>	Gwerth x £k		Gwerth x £k		Gwerth x £k		Gwerth x £k		
NAI	0	0	0	0	0	0	0	0	0
WPM	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Nodiadau: Pennwyd gwerth presennol iawndal ar gyfer 1m o gynnydd yn lefel y môr mewn 100 mlynedd.  
Gwybodaeth arall:

Ni nodwyd unrhyw iawndal llifogydd.

##### Tabl 2. Aseiad Cyffredinol o Amcanion

Mae'r tabl canlynol yn rhoi aseiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi aseiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

	NAI		WPM	
Lleihau perygl i fywyd.	Red	Green	Red	Green
Amddiffyn eiddo rhag colled trwy lifogydd ac erydiad.	Red	Green	Red	Green
Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol.	Green	Green	Red	Green
Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus.	Green	Green	Red	Green
Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod.	Red	Green	Red	Green
Cynnal cymeriad a chyfanrwydd cymunedau arfordirol.	Green	Green	Red	Green
Cynnal tirwedd hanesyddol.	Green	Green	Red	Green
Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella.	Green	Green	Red	Green
Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau.	Red	Green	Red	Green





## 3.8 Aber Mawr ac Aber Bach

### DISGRIFIAD



Mae'r ardal hon yn rhan bwysig ac arwyddocaol o'r arfordir o ran geomorffoleg gydag Aber Mawr wedi cael ei ddynodi'n SoDdGA. Nid oes unrhyw eiddo cysylltiedig â'r ardal, er bod ffordd a llwybr yr arfordir. Hefyd mae tir amaeth yng nghwm yr Aber Mawr. Ffurfiwyd y glannau fel dau fae bach gyda phentir rhyngddynt. Traethell yw'r cefndraeth yn y ddwy ardal.

### AMDDIFFYNFEYDD PRESENNOL

Nid oes unrhyw amddiffynfeydd.

### SENARIO DIGYFYNGIAD

Mae'r baeau'n enghraifft ragorol o ddatblygiad naturiol arfordir agored.

### PROSESAU'R ARFORDIR

Mae'r glannau'n agored i effaith tonnau sylweddol sef y rhai a ddiffreithiwyd o'r de-orllewin a rhai a gynhyrchwyd yn fwy lleol o'r gorllewin a'r gogledd-orllewin. Mae'r traethau'n gweithredu fel crib stormydd graean naturiol a byddai disgwyl iddynt dreiglo'n ôl gyda chynnydd yn lefel y môr ac wrth i'r pentir cymharol feddal erydu.

### SENARIOS RHEOLI

#### **DIM YMYRIAD GWEITHREDOL – SENARIO MAN CYCHWYN 1.**

Dan y senario hwn bydd yr arfordir yn addasu'n naturiol. Bydd hyn yn peri colli tir tu ôl a bydd gweddill y tir mewn mwy o berygl llifogydd.

#### **GYDA RHEOLI PRESENNOL – SENARIO MAN CYCHWYN 2.**

Y polisi cyfredol yw Dim Ymyriad Gweithredol. Gyda'r agwedd hon byddai mwy o lifogydd dros y tir tu ôl ond dim colled eiddo nac effaith ar yr amgylchedd hanesyddol.

#### **TRAFODAETH A DATBLYGU POLISI MANWL**

Bwriad rheolaeth yr ardal hon at ei gilydd fyddai caniatáu datblygiad naturiol y draethlin. Ystyriwyd yr ardal ar wahân gan fod hon yn un ardal lle mae traethlin fwy dynamig yn hytrach na chlogwyni craig y rhan fwyaf o'r Parth sy'n galetach yn gyffredinol.

## Crynodeb Rheoli.

Y bwriad ar gyfer rheoli rhan hon yr arfordir at ei gilydd yw caniatáu datblygiad naturiol y lan. Mae cylchoedd lleol penodol lle byddai agwedd o'r fath yn peri canlyniadau arwyddocaol ac fe archwiliwyd y rhain ar wahân yn y drafodaeth uchod. Oherwydd gwerth naturiol sylweddol yr ardal, caiff y Parth cyfan ei ystyried fel un Ardal Reoli gyda'r polisi trosfwaol o Ddim Ymyriad Gweithredol. O fewn yr ardal hon, caiff Unedau Polisi lleol eu diffinio wedyn. Caiff y polisïau eu crynhoi isod.

### M.A.4 PENMAEN DEWI I BEN CAER: o Ddinas Fach i Ben Anglas

Uned Bolisi		Cynllun Polisi			
		2025	2055	2105	Sylw
3.1	Dinas Fach i Ben Anglas	NAI	NAI	NAI	Uned Bolisi drosfwaol yn pennu'r bwriad sylfaenol ar gyfer y parth.
3.2	Solfach Isaf	HTL	HTL	MR	Mae angen datblygu cynllunio addasu i'r cylch.
3.3	Harbwr Solfach	HTL	HTL	HTL	Byddai'r polisi hwn yn amodol ar agwedd gydweithredol at gyllido.
3.4	Porth Clais allanol	HTL	NAI	NAI	Ni fyddai hyn yn cau allan rheoli lleol yn amodol ar gymeradwyaeth normal.
3.5	Porth Clais mewnol	HTL	HTL	HTL	Byddai'r polisi hwn angen cynllunio a chyllido cydweithredol.
3.6	Porth Stinian	NAI	NAI	NAI	Ni fyddai'r polisi hwn yn cau allan rheoli Gorsaf yr RNLI a'r gwasanaeth fferi'n amodol ar gymeradwyaeth arferol.
3.7	Ynys Dewi	NAI	NAI	NAI	Ni fyddai'r polisi hwn yn cau allan gwella lleol i gynnal mynediad, yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.
3.8	Porth Mawr	HTL	MR	MR	Proses hirdymor o gilio rheoledig.
3.9	Abereiddi	MR	MR	MR	Proses hirdymor o gilio rheoledig.
3.10	Porth Gain	HTL	HTL	HTL	Materion cyllido arwyddocaol.
3.11	Abercastell	HTL	MR	MR	Cynnal defnydd yr ardal a chefnogi'r gymuned leol trwy symud amddiffynfeydd lleol yn ôl.
3.12	Aber Mawr	NAI	NAI	NAI	Arolygu fel enghraifft o ymateb naturiol i gynnydd yn lefel y môr.
Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig					

## **PDZ3**

**Datganiadau Ardaloedd Rheoli**

### **MA4 Penmaen Dewi i Ben Caer**

*Dinas Fach i Ben Anglas*


<b>Cyfeirnod y Lleoliad:</b>	<b>Penmaen Dewi i Ben Caer</b>
<b>Cyfeirnod Ardal Reoli:</b>	<b>M.A. 4</b>
<b>Parth Datblygu Polisi:</b>	PDZ3



\* Sylwch: Seiliwyd mapio traethlin ddisgwyliedig ar gyfuniad o ddata arolygu, dadansoddi mapiau hanesyddol ac asesiad geomorffolegol gyda lwfans am gynnydd yn lefel y môr. Oherwydd ansicrwydd cynhenid rhagweld newid yn y dyfodol, mae'r rhagfynegiadau o angenrheidrwydd yn arwyddol. I'w defnyddio y tu hwnt i ddiben y cynllun rheoli traethlin, dylid cyfeirio at y data sylfaenol.

Caiff y disgrifiadau canlynol eu darparu i gynorthwyo dehongli'r map drosodd.


#### **Sefyllfa'r draethlin ymhen 100 mlynedd:**

Bwriad y mapiau canlynol yw crynhoi sefyllfa ddisgwyliedig y draethlin ymhen 100 mlynedd dan ddau senario "Gyda Rheoli Presennol" a gyda'r "Polisi Dewisol Drafft" sy'n cael ei gynnig trwy'r Cynllun Rheoli Traethlin.


-  Mewn rhai ardaloedd nid yw'r polisi dewisol yn newid o'r hyn yw gyda'r rheoli presennol. Mewn rhai ardaloedd lle mae amddiffynfeydd caled mae modd nodi hyn yn fanwl gywir. Mewn cylchoedd eraill mae mwy o ansicrwydd. Serch hynny, lle bo newid fel copa clogwyn yn debygol o ddiffinio'r draethlin yn hollol amlwg caiff amcangyfrif o'r sefyllfa ei ddangos fel llinell sengl.
- Lle bo gwahaniaeth rhwng Gyda Rheoli Presennol a'r Polisi Dewisol Drafft, caiff y gwahaniaeth hwn ei wneud trwy ddangos dwy linell wahanol:

-  Gyda Rheoli Presennol.
-  Polisi Dewisol Drafft.

#### **Parthau Perygl Llifogydd**

 Parthau Perygl Llifogydd Cyffredinol. Caiff esboniad y parthau hyn ei ddarparu ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd [www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk). Dengys y mapiau yn nogfen Ddrafft hon y CRhT lle gallai polisi CRhT ddylanwadu ar reoli perygl llifogydd.


 Ardaloedd lle mae polisi drafft y CRhT yn bwriadu dal i reoli'r perygl hwn.

 Ardaloedd lle byddai'r polisi'n caniatáu mwy o berygl llifogydd yn ystod y 100 mlynedd.

Dylid darllen y mapiau ar y cyd â thestun dogfen Drafft y CRhT.

**Isgell Cynllun Rheoli Traethlin 8 & 9**  
**Map Lleoliad Man Cychwyn**  
**Ardal Reoli 4**

- Ardal Reoli
- Uned Bolisi
- Parth Datblygu Polisi
- Henebion Cofrestredig



Atgynhychwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda  
 chaniatâd Rheolwr y Llyfrfa. Hawffrwyd y Goron-  
 trwydded heilltuedig AL 100026380

- Allwedd:** Sefyllfa'r Draethlin ym mhen 100 mlynedd:
- Byddai'r Polisi Dewisol Drafft yr un fath â Gyda Rheoli Presennol
  - Gyda Rheoli Presennol pan fo hyn yn wahanol i'r Polisi Dewisol Drafft
  - Polisi Dewisol Drafft pan fo hyn yn wahanol i'r un Gyda Rheoli Presennol

- Ramsar
- ACA
- AGA
- SoDdGa
- GNG
- Parth Perygl Llifogydd AA 3
- Parth Perygl Llifogydd AA 3 lle na fyddai mwy o debygolrwydd llifogydd dan bolisi Drafft y CRhT



L1079001\Technical\_Data\GIS\Projects\ISMP\_Report\_Figures\Management\_Areas

## CRYNODEB O ARGYMHELLION A CHYFIAWNHAD Y CYNLLUN DEWISOL

### BWRIAD Y CYNLLUN:

Y bwriad sy'n sail i'r cynllun yw gweithio tuag at arfordir yn gweithredu'n naturiol, gan gyfyngu ar unrhyw ymyriad pellach â'r draethlin a chefnogi gwarchod natur a gwerthoedd tirwedd pwysig yr ardal. O fewn hyn, mae cydnabyddiaeth o'r cymunedau gwerthfawr fel Solfach, Abereiddi, Porth Gain ac Abercastell sy'n cynnal ac yn darparu adnodd twristiaeth bwysig. Bwriad y cynllun yw cynnal y cymunedau hyn, wrth iddynt addasu i gynnydd yn lefel y môr, er mwyn cynnal cymeriad a swyddogaeth y cymunedau.

Un o'r agweddau mwyaf arwyddocaol yw'r angen i addasu defnydd tir yn Solfach Isaf, i ganiatáu rheoli llifogydd yn gynaliadwy. Gall hyn beri colli eiddo a mesurau gwydnwch lleol lle mae eiddo'n agored i fwy o berygl. Y nod yw rheoli perygl ac amddiffyn y cylch fel nad yw'r cysylltiad pwysig rhwng y pentref a'i fynediad at y glannau'n cael ei ddinistrio. Bydd hyn yn gofyn agwedd fwy ymaddasol, gan weithio gyda'r gymuned leol. Hefyd mae Solfach a Phorth Clais ac, i raddau llai, Abercastell a Phorth Gain, yn darparu porthladdoedd lleol pwysig. Nod y cynllun yw cynnal y defnydd hwn ond byddai hyn yn gofyn cyllid o ffynonellau eraill.

Mae Porth Mawr, gyda'i gyfleusterau cysylltiedig, yn bwysig i dwristiaeth a threftadaeth. Bwriad y cynllun yw cynnal y defnydd hwn ond cydnabod y bydd angen gadael i'r draethlin dreiglo'n ôl os yw'r traeth a mynediad at y traeth i gael ei gadw. Yn Abereiddi mae'r amddiffynfeydd presennol yn methu, ond byddai modd rheoli hyn i ganiatáu adlinio'r draethlin. Byddai hyn yn cynnal y traeth amwynder, yn cadw rhan o'r maes parcio a'r mynediad ac yn gwella'r amddiffynfa naturiol i eiddo.

Ni fyddai gorsaf RNLI na'r orsaf newydd arfaethedig yn Sant Iwstinian yn effeithio ar reoli'r draethlin. Wrth ddatblygu'r ardal hon, mae angen ystyried cynnal mynediad at yr ynysoedd.

### MATERION ALLWEDDOL / RISG AC ANSICRWYDD:

Mae ansicrwydd o ran amseriad y newidiadau arfaethedig a'r cymorth ariannol sydd ar gael. Hefyd mae angen ymateb manwl trefnus i newid. Bydd yn bwysig cysylltu hyn ag arolygu cenedlaethol o gynnydd yn lefel y môr a newid yn yr hinsawdd. I gyflawni'r cynllun bydd angen cyllid cydweithredol, yn cynnwys unigolion preifat, twristiaeth ac efallai dreftadaeth. Dim ond yn Solfach Isaf mae buddiannau clir a sylweddol o ran perygl llifogydd. Mewn cylchoedd eraill, gan gynnwys Harbwr Solfach, mae'r buddiannau'n gymunedol neu ranbarthol. Heb gyllid ychwanegol, heblaw'r hyn sydd ar gael yn gyfan gwbl o beryglon llifogydd ac erydiad arfordirol, mae'n debygol mai'r polisi yn niffyg fydd NAI.

### CAMAU GWEITHREDU:

CAM GWEITHREDU	PARTNERIAID
Arolygu'r draethlin	<b>CSP</b>
Cynllunio ar gyfer addasu	<b>PCP</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>Solfach</li><li>Abereiddi</li><li>Abercastell</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Porth Clais</li><li>Porth Mawr</li></ul> <b>Cymunedau</b> <b>CSP</b> <b>Priffyrdd</b> <b>Yr Ymddiriedolaeth</b> <b>Genedlaethol</b>
Asesu'n fanwl yr effaith all fod ar yr amgylchedd hanesyddol	
Cynllunio adleoli llwybr yr arfordir	<b>PCP</b>

## CYFLAWNI'R CYNLLUN

### CRYNODEB O BOLISI'AU PENODOL

Uned Bolisi		Cynllun Polisi			
		2025	2055	2105	Sylw
3.1	Dinas Fach i Ben Anglas	NAI	NAI	NAI	Uned Bolisi drosfwaol yn pennu'r bwriad sylfaenol ar gyfer y parth.
3.2	Solfach Isaf	HTL	HTL	MR	Mae angen datblygu cynllunio addasu i'r cylch.
3.3	Harbwr Solfach	HTL	HTL	HTL	Byddai'r polisi hwn yn amodol ar agwedd gydweithredol at gyllido.
3.3	Porth Clais allanol	HTL	NAI	NAI	Ni fyddai hyn yn cau allan rheoli lleol yn amodol ar gymeradwyaeth normal.
3.4	Porth Clais mewnol	HTL	HTL	HTL	Byddai'r polisi hwn angen cynllunio a chyllido cydweithredol.
3.5	Sant Iwstian	NAI	NAI	NAI	Ni fyddai'r polisi hwn yn cau allan rheoli Gorsaf yr RNLl a'r gwasanaeth fferi'n amodol ar gymeradwyaeth arferol.
3.6	Ynys Dewi	NAI	NAI	NAI	Ni fyddai'r polisi hwn yn cau allan gwella lleol i gynnal mynediad, yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.
3.7	Porth Mawr	HTL	MR	MR	Proses hirdymor o gilio rheoledig.
3.8	Abereiddi	MR	MR	MR	Proses hirdymor o gilio rheoledig.
3.9	Porth Gain	HTL	HTL	HTL	Materion cyllido arwyddocaol.
3.10	Abercastell	HTL	MR	MR	Cynnal defnydd yr ardal a chefnogi'r gymuned leol trwy symud amddiffynfeydd lleol yn ôl.
3.11	Aber Mawr	NAI	NAI	NAI	Arolygu fel enghraifft o ymateb naturiol i gynnydd yn lefel y môr.
Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig					

POLISI DEWISOL I WEITHREDU'R CYNLLUN:	
<b>O'r presennol</b>	Cynnal amddiffynfeydd presennol. Rhoi sylw i faterion diogelwch yn Abereiddi a datblygu agwedd at adlinio. Cynllunio ar gyfer addasu. Datblygu cynllun ariannu.
<b>Tymor canolog</b>	Cynnal amddiffynfeydd wrth symud tuag at reoli addasol
<b>Hirdymor</b>	Gweithredu addasu cymunedol.



## GOBLYGIADAU'R CYNLLUN

### NEWIDIADAU O'R RHEOLI PRESENNOL

Yn Solfach, Porth Clais ac Abercastell mae'r agwedd at reolaeth yn newid o agwedd gyffredinol o Gadw'r Llinell i un lle mae agwedd fwy ymaddasol i'w hargymell. Yn Abereiddi, caiff y polisi blaenorol o Adlinio Rheoledig yn y pen draw ei ddwyn ymlaen i'r cyfnod cyntaf.

### CRYNODEB ECONOMAIDD

Economeg (PV £k)	erbyn 2025	erbyn 2055	erbyn 2105	Cyfanswm PV £k
lawndal NAI all fod	47.0	71.6	596.3	714.8
lawndal y Cynllun Dewisol	47.0	37.2	357.2	441.4
Buddiannau	0.0	34.3	239.1	273.4
Costau Gweithredu'r Cynllun	178.1	855.0	43.3	1,076.4

### RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDIAD

#### COLLED DEBYGOL

Mae'n debygol y bydd eiddo'n cael ei golli a rhannau o'r maes parcio yn y tymor hwy ym Mhorth Mawr oherwydd erydiad. Yn Solfach byddai mwy o berygl llifogydd a phosibilrwydd colli eiddo wrth ddatblygu agwedd fwy ymaddasol at leihau perygl llifogydd a chynnal y gymuned.

#### BUDDIANNAU'R CYNLLUN

Mae'r cynllun yn darparu agwedd gynaliadwy yn y tymor hwy at amddiffyn, gan gynnal amddiffynfa i ardaloedd craidd y gymuned. Byddai'r perygl llifogydd yn Solfach yn cael ei reoli i gynnal y gymuned yn y pen draw.

**CRYNODEB O ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL (GAN GYNNWYS HRA)**

PDZ 3				
Amcan AAS	Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod			
	1	2	3	Lliniaru
<b>Unedau Polisi 3.1 i 3.12</b>				
Cynnal prosesau naturiol, cynnal a gwella cyfanrwydd safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffatriol o'u nodweddion diddordeb (cynefinoedd a rhywogaethau).				Creu cynefin
Osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol a chyfoethogi'r diddordeb dynodedig lle bo hynny'n ymarferol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffatriol.				Creu cynefin
Osgoi effeithiau andwyol ar gynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol a'u cyfoethogi lle bo hynny'n ymarferol.				Creu cynefin
Cynnal prosesau naturiol a chadw datguddiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.				Arolygu a dylunio priodol
Gwarchod a chyfoethogi tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn cysylltiad â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro ag Amcanion AHNE a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.				Dylunio priodol
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau rhestredig ac asedau etifeddiaeth ddiwylliannol eraill pwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, ynghyd â'u safleoedd a'u hamgylchedd.				Cloddio a chofnodi
Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i isadeiledd hanfodol a chynnal gwasanaethau hanfodol.				Adleoli neu adlinio
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i dir amaethyddol a gweithgareddau garddwriaethol.				
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl.				Adleoli
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol.				Adlinio llwybr yr arfordir (PU 3.12)
Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristiaeth.				

Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi, ac arolygu cyflymder erydu.

**Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o'r SEA (atodiad E) a dylid cyfeirio at yr Atodiad i gael manylion llawn yr asesiad.**

Mae'r ddwy adran nesaf hyn yn rhoi crynodeb penawdau o ganfyddiadau'r HRA (Atodiad G) a'r WFA (Atodiad H). Dylid cyfeirio fel y bo'n briodol at yr Atodiadau hyn i gael manylion llawn.

#### CRYNODEB HRA

Safle Dynodedig	Uned Bolisi	Math o Gynefin	Arwynebedd y cynefin sy'n cael ei golli (ha)			
			Cyfnod 1	Cyfnod 2	Cyfnod 3	Cyfanswm
ACA Sir Benfro Forol	3.2	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.17	0.03		0.19
	3.3	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.08	0.38	0.08	0.53
	3.4	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.01			0.01
	3.5	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.01	0.04	0.03	0.08
	3.8	Gwastadedd tywod rhynglanwol	0.02			0.02

*ACA Sir Benfro Forol:* Daethpwyd i gasgliad y byddai **effaith andwyol ar gyfanrwydd** cynefin y gwastadedd tywod rhynglanwol o fewn terfyn yr ACA o ganlyniad i bolisiâu CRhT2. Fodd bynnag, ni fydd effaith andwyol ar gyfanrwydd nodweddion eraill yr ACA.

*Mesurau ataliol / Iliniaru:* Efallai symud yr amddiffynfeydd tua'r tir lle bo hynny'n ymarferol, i adael i'r gwastadeddau tywod dreiglo'n ôl dros gyfnod gyda chynnydd yn lefel y môr, ac ymchwilio i bosibiliadau ar gyfer Porth Mawr.

**CASGLIAD CRYNO O'R ASESIAD FFRAMWAITH DŴR**

Hepgorwyd yr ardal hon o'r asesiad.

=0=0=0=